OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2020 Rhif 900 (Cy. 200)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pen-y-banc, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *28 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pen-y-banc, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Aros) 2020 a daw i rym ar 28 Awst 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(**2**);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 2000/1786 (Cy.123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082. Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**3**);

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

mae i "y safle perthnasol" ("*the relevant position*") yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

**Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg**

**3.** Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochrau'r darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Pen-y-banc, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 147 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Parcdir hyd at bwynt 350 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno.

**Esemptiadau**

**4.**—(1) Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

  (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

  (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

  (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r gefnffordd; neu

  (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn hwnnw o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**4**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(**3**) O.S. 2000/1785 (Cy.122).

(**4**) 2003 p.21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p.30).

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochrau'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Awst 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru